

# Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Medi 10fed 2013 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Jean Roberts (Cadeiryddes), Geraint Jones, Geraint Davies, Arwel Davies, Gwynedd Jones, Rhys Richards, Gwynfryn Williams a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwilym Davies, Euros Puw a'r Cyng. Elwyn Edwards .

Croesawyd Huw Antur i'r cyfarfod a chafwyd diweddariad ar gynlluniau'r Bartneriaeth a Chwmni Pum Plwy Penllyn. Roedd y Bartneriaeth wedi llwyddo i sicrhau'r arian i ddiweddarau adeilad Yr Henblas ac roedd cynnig o £5,000 y flwyddyn am 5 mlynedd gan Gyngor Gwynedd tuag redeg y cynllun. I sicrhau'r arian gan Gyngor Gwynedd roedd gofyn i'r cynghorau cymuned a thref gyfrannu arian cyfatebol. Diolchwyd i Huw am fynychu'r cyfarfod a dymunwyd yn dda i Gwmni Pum Plwy Penllyn gyda'u cynlluniau. Trafodwyd y cais am arian cyfatebol a chytunwyd i gyfrannu'r canran o arian a ofynnwyd amdano, ond am ddwy flynedd yn unig gan ail asesu'r sefyllfa ar ddiwedd yr ail flwyddyn.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

## **Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

### Gwter ger Fedw Arian Isaf, Bala.

Cafwyd cadarnhad bod y cais i drwsio'r gwter wedi cael ei roi ar raglen waith gweithlu Cyngor Gwynedd ac y byddant yn ceisio gwneud y gwaith cyn gynted â phosib.

### Gwifrau ffon rhwng croesffordd y Bragdy a Thŷ Capel Moelgarnedd, Parc.

Derbyniwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd yn hysbysu'r Cyngor na chyfrifoldeb BT oedd y gwifrau gan nad oedd y sefyllfa yn creu unrhyw beryg i ddefnyddwyr y ffordd ar hyn o bryd. Gan nad oedd BT wedi cymryd dim sylw o ymgais blaenorol y clerch i drafod y mater cytunwyd i adael y mater am rŵan.

## **Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

### a) Partneriaeth Penllyn

i) Copi o gofnodion y Bartneriaeth 8/7/13 a Phanel yr Henblas 30/7/13.

### b) Cyngor Gwynedd

i) Derbyniwyd llythyr yn ein hysbysu bod Peiriannydd Ardal Meirionnydd, Mr Ieuan Thomas yn ymddeol ac y byddai Mr Adrian Williams yn ymgymryd â'r gwaith dros dro.

ii) Copïau o'r gwaharddiadau a'r gorchmynion cyhoeddus a oedd yn ymwneud a Threiathalon Bala , 8/9/13.

iii) Derbyniwyd gwybodaeth ynglŷn â grant Llywodraeth Cymru i sefydlu gwefannau i gynghorau Tref a Chymuned. Cytunwyd i ddatgan diddordeb i dderbyn yr arian ar gyfer sefydlu gwefan ar y cyd gyda gweddill cynghorau Penllyn. Cytunwyd hefyd bod angen gwybod costau rhedeg y math yma o gynllun cyn ymrwmo.

iv) Rhaglen waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Gorffennaf.

v) Copïau o'i llyfryn gwybodaeth 'Arwisgo Priffyrdd'.

### c) Un Llais Cymru

i) Copi diweddaraf 'Y Llais'.

### ch) Amrywiol

i) Age Cymru – Derbyniwyd gwybodaeth am ei hymgyrch newydd i ddiogelu'r henoed rhag sgamiau.

ii) Ombwdsmon – Copi o'r Adroddiad Blynyddol 2012/13.

iii) CAB - Derbyniwyd e-bost yn gofyn i'r Cyngor arddangos posteri yn hysbysebu eu bod yn dod a'r uned symudol newydd i faes parcio'r Plasau bob yn ail wythnos o'r 17/9/13 ymlaen.

iv) Cynghrair Cymunedau Cymraeg - Derbyniwyd llythyr yn gwahodd y Cyngor i ymaelodi a'r fforwm newydd yma. Bwriad y Cynghrair oedd bod yn lais dros gymunedau a oedd eisiau gweld y Gymraeg yn iaith fyw yn eu bro. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ymaelodi a'r fforwm.

#### iv) Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol:-

NP5/71/405B - Codi adeilad amaethyddol dros storfa slyri presennol. Gwern Hefin, Llanuwchllyn.

Cytunwyd i gefnogi'r cais.

Derbyniwyd cadarnhad bod y ceisiadau isod wedi cael eu pasio:-

NP5/72/LB143B - Cynlluniau diwygiedig. Eglwys Beuno Sant, Llanycil.

NP5/71/405B - Codi adeilad amaethyddol tros storfa slyri presennol. Gwern Hefin, Llanuwchllyn.

NP5/72/T226 – Adeiladu estyniad. Gwerndyfrgi, Rhyduchaf.

#### **Materion Ariannol.**

Derbyniwyd ail randal y Praesept - £1650.

#### Datganiad Blynyddol.

Cafwyd cadarnhad gan UHY Hacker Young bod y Datganiad Blynyddol yn gywir. Cytunwyd i gymeradwyo'r Datganiad a arwyddwyd Adran 3 gan y Cadeirydd.

Cytunwyd i dalu cyflog y clerc (Ebrill – Mehefin).

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Shelter Cymru a Chofeb Genedlaethol Cymru Fflandrys. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Medi.

#### **Unrhyw Fater Arall**

Safle casglu ysbwriel ger Y Fron, Parc.

Gofynnwyd i'r clerc holi Cyngor Gwynedd os oeddynt yn bwriadu gosod bin gwyrdd ychwanegol ar y safe. Roedd biniau ail-gylchu yno nawr ond roedd dal angen bin ychwanegol i'r bagiau du.